O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 96 (Cy. 37)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ionawr 2017* |
| *Yn dod i rym* | *1 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafffordd Llundain – De Cymru (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Chwefror 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “y darnau o’r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw’r darnau hynny o’r draffordd wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) yn Ninas Casnewydd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**5.**—(1) Nid yw’r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ionawr 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**
**Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

1. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 400 metr cyn ei chyffordd â'r A48 hyd at y gyffordd honno.

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gyffordd 28 am bellter o 250 o fetrau, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig o'r A467.

3. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt 200 metr cyn ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gyffordd 28 hyd at y gyffordd honno, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig i'r A48.

4. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o'i chyffordd â'r A48 am bellter o 300 metr.